Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

12 Chwefror 2008

Pobl ifanc yn cael dweud eu dweud mewn ysgolion

Mae cynghorau ysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr disgyblion, wedi ennill eu plwyf yn y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd yng Nghymru, ac maent wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar benderfynu ynglŷn â'r modd y mae eu hysgolion yn cael eu rhedeg. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig o ysgolion y mae effaith cyngor yr ysgol yn sylweddol. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae effaith cyngor yr ysgol wedi'i chyfyngu i ddylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â threfniadau ymarferol, fel materion yn ymwneud â gwisg ysgol, cyfleusterau toiled a dewisiadau bwyd.

Gan edrych ymhellach na chynghorau ysgol, mae angen i ysgolion gynnwys yr holl ddisgyblion yn ehangach mewn penderfyniadau ynglŷn ag addysgu a dysgu, meddai adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant.

Mewn ychydig o ysgolion, lle mae effaith cyngor yr ysgol yn sylweddol, mae disgyblion wedi'u cynnwys wrth benodi uwch aelodau staff, dylanwadu ar y modd y caiff arian ei wario a datblygu polisïau fel camddefnyddio sylweddau, ailgylchu a gwrth-fwlio. Mewn un ysgol yng Ngogledd Cymru, fe wnaeth cyngor yr ysgol helpu'r uwch dîm rheoli i benderfynu pa bynciau fyddai'n cael eu haddysgu ar ôl 16 oed. Newidiodd yr ysgolion yr amrywiaeth o bynciau a oedd yn cael eu cynnig mewn ymateb i ddiddordebau disgyblion.

"Yn yr holl feysydd dysgu yng Nghymru, dylai darparwyr sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â'u haddysg a'u hyfforddiant. Mae'r rheoliadau statudol[1] wedi cryfhau statws cynghorau ysgol ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion yn gwneud

[1] Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005

penderfyniadau, ond fe all darparwyr wneud mwy, a dylent wneud mwy", meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Dim ond lleiafrif o'r ysgolion y gwnaeth Estyn arolwg ohonynt sydd wedi penodi disgyblion i fod yn aelodau o'r corf llywodraethol, yn unol â'r rheoliadau statudol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yng nghyfnodau cynnar datblygu cysylltiadau rhwng cynghorau ysgol a chyrff llywodraethol. Mae adroddiad Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu arweiniad pellach i ysgolion ar rôl disgybl-lywodraethwyr cyswllt.

Mae llai na thraean o athrawon wedi defnyddio gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.cynghorauysgolcymru.org.uk a ddatblygwyd i gynorthwyo datblygu cynghorau ysgol. Ni ddefnyddiwyd adrannau fforwm y wefan gan athrawon, llywodraethwyr na disgyblion ers i'r wefan gael ei chreu flwyddyn yn ôl. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o'r athrawon y gwnaethpwyd arolwg ohonynt yn teimlo bod y wefan yn un hawdd ei defnyddio ac yn teimlo mai'r astudiaethau achos yw'r agwedd fwyaf defnyddiol. Mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud yn siwr bod y wefan, ac arweiniad arall, yn diwallu anghenion cynghorau ysgol sydd eisoes wedi ennill eu plwyf.

Ar draws sectorau addysg eraill yng Nghymru, nid yw pobl ifanc yn cael dweud eu dweud i'r un graddau bob tro ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae gan bob coleg addysg bellach gynrychiolwyr myfyrwyr ar y corff llywodraethol, ac ymgynghorir yn gynyddol â dysgwyr ynglŷn â'r modd y maent eisiau dysgu. Mae'r holl wasanaethau cymorth ieuenctid bron yn gweithio'n galed i ofalu bod pobl ifanc yn cael llais. Mae athrawon dan hyfforddiant yn cael cyfleoedd da i fynegi'u barn ar eu cwrs drwy holiaduron a grwpiau trafod. Canfu Estyn hefyd fod rhyw hanner yr awdurdodau lleol a gafodd eu harolygu eleni yn ymgynghori'n effeithiol â dysgwyr. Fodd bynnag, mewn dysgu yn y gwaith, nid yw digon o ddysgwyr yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r broses benderfynu.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chynghori o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Dweud eich dweud – Pobl ifanc, cyfranogiad a chynghorau ysgol', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae'r sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

    - Adroddiadau ar 43 o ysgolion uwchradd, 17 o ddarparwyr dysgu yn y gwaith, naw o wasanaethau addysg awdurdod lleol, pum darparwr addysg bellach, pedwar gwasanaeth cymorth ieuenctid ac un darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon, ac arolygwyd y cyfan ohonynt rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2007.
    - Data ystadegol yn ymwneud â defnyddio www.cynghorauysgolcymru.org.uk a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
    - Canfyddiadau o arolwg ffôn o 35% o ysgolion uwchradd ac ymweliadau â 10% o ysgolion uwchradd a arolygwyd rhwng mis Medi 2006 a mis Gorffennaf 2007

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu a ariennir gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau cyflawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464